# Cyfundrefn Gorfforedig Elusennol Dŵr Anafon Canllawiau Ymgeiswyr

Dylid darllen y nodiadau hyn cyn cyflwyno ceisiadau i Ddŵr Anafon. Awgrymir hefyd y dylid cyfeirio at y nodiadau hyn yn ystod y broses o lunio'r cais.

## Beth yw CGE Dŵr Anafon?

Mae Mudiad Ymgofforedig Elusennol (CIO) Dŵr Anafon yn elusen a sefydlwyd i ddosbarthu elw o gynllun Ynni Anafon Energy Hydro er budd y gymuned. Mae Ynni Anafon Energy Hydro yn gynllun cynhyrchu trydan hydro yn Nyffryn Anafon uwchlaw Abergwyngregyn yn y Carneddau.
http://www.anafonhydro.co.uk/

Bydd yr elusen yn cynnig grantiau o'r mathau a ganlyn:

- Grantiau brys o hyd at £500 i gynnig cymorth i unigolion a theuluoedd mewn sefyllfaoedd argyfyngus (Abergwyngregyn yn unig).
- Grantiau ar gyfer unigolion.
- Grantiau ar gyfer grwpiau cymunedol.

## Nodau'r Gronfa

Er mwyn bod yn llwyddiannus rhaid i'ch cais am grant gyflawni o leiaf un o nodau'r elusen:

- Atal neu liniaru tlodi
- Hyrwyddo addysg
- Hyrwyddo iechyd
- Hyrwyddo dinasyddiaeth neu ddatblygiad cymunedol
- Hyrwyddo'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth neu wyddoniaeth
- Hyrwyddo cyfranogaeth gyhoeddus mewn chwaraeon
- Hyrwyddo amddiffyn neu wella'r amgylchedd
- Gollyngdod y rhai fo mewn angen oherwydd ieuenctid, henaint, gwaeledd, anabledd, cynni ariannol neu unrhyw anfantais arall
- Darparu cyfleusterau neu drefnu gweithgareddau gyda'r nod o wella ansawdd bywyd o fewn y gymuned

## Cymhwyster

Mae'r rhai sy'n gymwys i ymgeisio'n cynnwys:

- Unigolion sy'n byw o fewn plwyfi Abergwyngregyn a Llanfairfechan (gweler y map ar Dudalen 6).
- Grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithredu o fewn plwyfi Aberwyngregyn a Llanfairfechan (gweler y map ar Dudalen 6).
- Cynghorau Plwyf/Cymuned / Cynghorau Tref.
- Mentrau cymdeithasol (gan gynnwys undebau credyd, cydweithfeydd, cwmnïau cymdeithasol, mentrau'n perthyn i gymunedau, cwmnïau er lles cymdeithasau ac ymddiriedolaethau datblygu) ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail nid-er-elw.
- Swyddfeydd lleol mudiadau cenedlaethol, ar yr amod bod ganddynt eu pwyllgor rheoli, dogfen reolaeth a chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu eu hunain (yn enw'r mudiad) gyda lleiafswm o 2 lofnodwr eisoes yn eu lle cyn ymgeisio am grant.

Ni fydd grantiau ar gael ar gyfer:

- Sefydliadau masnachol.
- Unrhyw waith a ystyrir i fod yn gyfrifoldeb statudol, megis gwasanaethau trafnidiaeth rhestredig, gwaith ar briffyrdd cyhoeddus a meysydd parcio cyhoeddus.
- Prosiectau sy'n cefnogi ymgyrch neu achos plaid wleidyddol neu a allai ddwyn gwarth ar y gronfa neu ei darparwr.
- Ariannu ôl-weithredol, h.y. prosiectau sydd eisoes wedi eu cwblhau, p'un ai ydynt wedi eu talu amdanynt ai peidio.
- Adeiladu cronfa wrth gefn neu warged, p'un ai oes modd ei ddosbarthu ai peidio.
- Hyfforddiant Addysg Uwch, ffioedd llety neu fenthyciadau myfyrwyr.

## Y Broses Ymgeisio

**a) Ariannu Argyfwng llai na £500**

- Ar gyfer y rhai sy'n ceisio cymorth o lai na £500 ar gyfer gollyngdod argyfwng mewn cyfyngder nid oes raid llenwi ffurflen gais (Trigolion Abergwyngregyn yn unig).
- Cysylltwch ag un o ymddiriedolwyr yr elusen a rhowch iddynt fanylion y sefyllfa ac unrhyw dystiolaeth sydd ar gael am yr angen.
- Bydd angen lleiafrif o 3 ymddiriedolwr i benderfynu a yw ariannu yn addas.
- Telir arian drwy unrhyw fodd addas i berson enwebiedig.

**b) Grantiau ar gyfer unigolion**

- Llenwch y 'Ffurflen Gais ar gyfer Unigolion' os gwelwch yn dda.
- Disgwylir i'r grantiau hyn fod ar gyfer unigolion sydd â phrosiectau nad oes angen ffurfio grwpiau er mwyn eu cwblhau.

- Ni fydd angen i ymgeiswyr gael cyfansoddiad ac ni fydd gofyn iddynt agor cyfrif banc er mwyn i'r cais fod yn llwyddiannus.

**c) Grantiau ar gyfer Grwpiau neu Brosiectau Cymunedol**

- Llenwch y 'Ffurflen Gais ar gyfer Grwpiau' os gwelwch yn dda
- Bydd gofyn i grwpiau sy'n gwneud cais gael cyfansoddiad (neu ddogfen reolaeth arall) a chyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn enw'r grŵp gyda lleiafswm o ddau lofnodwr eisoes yn eu lle cyn ymgeisio am grant.
- Ar gyfer prosiectau sylweddol, efallai y bydd hefyd angen cynllun busnes, yn ddibynnol ar y math o brosiect dan sylw.
- Ar gyfer y math yma o brosiectau, gall bod proses ymgeisio dwy-ran: y rhan gyntaf i drafod a yw'r prosiect yn addas i fynd ymhellach, a'r ail ran i gadarnháu cynllun y prosiect.
- Gellir ymgeisio ar gyfer cyllid ar gyfer rheolaeth cynllunio/adeiladu yn ystod y cais cychwynnol, gyda chyllid pellach yn cael ei ryddhau yn ôl yr angen er mwyn cwblháu'r prosiect.
- Cyfyngir gwaraiant I £10,000 y flwyddyn ar gyfer pob grŵp cymwys. Mae'r swm a roddir ar gyfer pob cais i'w benderfynu gan yr ymddiriedolwyr ac yn ddibynnol ar yr arian fydd ar gael.

## Cwblhau'r Ffurlen Gais

### Adran 1: Amdanoch chi / eich sefydliad

- Beth yw  eich enw /enw eich sefydliad?
- Rhowch eich cyfeiriad / gyfeiriad eich sefydliad neu gyswllt allweddol â chyfrifoldeb am y prosiect.
- Rhowch fanylion am y prif berson cyswllt sydd â chyfrifoldeb am y prosiect.*
- Beth yw eich rôl chi o fewn y grŵp? (e.e. Ysgrifennydd, Llywydd, Trysorydd a.y.y.b.)*
- Ydych chi'n rhan o sefydliad mwy / yn gysylltiedig âg elusen neu gorff rheoli cenedlaethol?*
- Pa fath o fudiad ydych chi? (e.e. Clwb/ cymdeithas wirfoddol, clwb/cymdeithas ieuenctid, elusen. cyngor tref/cymuned, grŵp amgylcheddol a.y.y.b.)*
- Rhowch fanylion am eich sefydliad / tîm prosiect*

*Nid oes ei angen ar gyfer cesiadau unigolion

### Adran 2: Am eich prosiect

- Dywedwch wrthym ni am eich prosiect. Beth rydych chi eisiau ei wneud? (ee. 'prynu cyfarpar chwarae newydd; 'adnewyddu adeilad

gwag'). Dim ond trwy i chi fynegi'n glir beth hoffech ei wneud y caiff y panel fewnweledìad o'ch prosiect.

- Pwy sydd ar y tîm prosiect?*
- Pa wahanaeth a wneir gan y prosiect? (e.e. 'galluogi sefydlu dosbarth mam a'i phlentyn newydd'; 'galluogi ailagor adeilad gwag fel cwt y Sgowtiaid a'r Geidiaid'). Rhaid i chi uwcholeuo buddion y cynllun arfaethedig. Dim ond ar ôl hynny y gellir asesu eich cais yn nhermau gwerth am arian.
- Ydych chi'n siŵr fod gwir angen eich prosiect ac fod ganddo gefnogaeth y gymuned? Oes gennych chi dystiolaeth i gefnogi eich barn? Gellid bod angen copi caled o'r dystiolaeth ac fe allai'r ymddiriedolwyr fod angen ei weld cyn cymeradwyo'r prosiect.
- Sut buasai'r ariannu'n eich helpu i gyrraedd eich nod?
- Ydi hi'n fwriad gennych i drosglwyddo rheolaeth o'r prosiect i gorff arall (e.e. ARC, Cyngor Cymuned, Cyngor Tref) ynteu i gadw rheolaeth ar y prosiect gydol ei oes?*
- Cofiwch fod yn realistig gyda'ch dyddiadau dechrau a diweddu. Mae materion megis cynllunio a gwaith adeileddol yn aml yn cymryd yn hwy na'r disgwyl.
- Croeso i chi ysgrifennu ar ffurf paragraffau, pwyntau bwled neu barhau ar ddarn papur ar wahan. Ceisiwch fod yn gryno a chadw at y prif bwyntiau.

*Nid oes ei angen ar gyfer cesiadau unigolion

**Adran 3: Manylion Ariannol**

- Mae 'r adran hon yn ymwneud â chostau prosiectau.
- Ble bo hynny'n bosibl, disgwylir 3 amcangyfrif ar gyfer unrhyw eitem sy'n costio mwy na £5,000.
- Dylech restru pob eitem/elfen rydych yn ymgeisio am arian ar ei gyfer.
- Dylech gynnwys y gost net, yr elfen TAW a chyfanswm y gost.
- Nodwch yn glir a yw eich sefydliad y gallu hawlio ad-daliad TAW.*
- Os bwriedwch hawlio ad-daliad TAW dylech gynnwys cost net pob eitem yn unig.*
- Anogir ymgeiswyr i geisio dod o hyd i ffynonellau ariannu eraill ar gyfer eu prosiectau, ond nid yw hynny'n orfodol.
- Rhestrwch pob ariannwr /ddarpar ariannwr arall, p'un ai a gawsant eu cadarnhau ai peidio, a'r cyfanswm rydych yn ei geisio ganddynt hwy.
- Ar waelod yr adran yma nodwch faint o grant cymorth rydych yn ei geisio oddi wrth Ddŵr Anafon.

*Nid oes ei angen ar gyfer cesiadau unigolion

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn dilyn cyfarfod yr ymddiriedolwyr i drafod y cais bydd y person cyswllt yn derbyn llythyr yn rhoi amlinelliad o benderfyniad yr ymddiriedolwyr a'r rhesymau dros y penderfynad hwnnw.
Os yw'r cais yn llwyddiannus rhaid i'r person cyswllt gytuno i:

- Gyflwyno derbynebau ar gyfer pob gwariant.
- Gyflwyno adroddiadau yn ôl y gofyn (bydd rhain yn gymesur â maint a chymhlethdod eich prosiect).
- Ddefnyddio'r arian yn union fel a nodwyd yn eich cais onibai y derbyniwyd cytundeb blaenorol oddi wrth Dŵr Anafon.
- Caniatau i Dŵr Anafon i gyhoeddi'r rhodd o grant gan gynnwys y Cyfanswm (Ceisiadau Grŵp yn unig).
- Os yn addas, arddangos logo Dŵr Anafon ar y prosiect gorffenedig. Darperir hyn dan Ddŵr Anafon.

## Diogelu data ac awdurdodiad defnyddio

Bydd Dŵr Anafon yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, at bwrpas delio â'ch cais am grant yn unig. Cedwir data'n ddiogel am 7 mlynedd o ddyddiad derbyn y cais neu ddyddiad cwblháu'r prosiect, pa un bynnag fyddo ddiwethaf. Caiff wedyn ei ddinistrio'n ddiogel.

Wnewch chi gadarnhau ar y ffurflen gais eich bod yn cytuno i Ddŵr Anafon gyhoeddi manylion eich mudiad, y cyfanswm a roddwyd a chrynodeb o'r hyn y bwriedir ei wneud â'r arian a roddwyd, ar ei wefan neu mewn newyddlenni lleol, pe bai'r cais yn llwyddiannus.

## Cyswlltx

**Am gymorth neu gyngor pellach, neu i ddychwelyd eich Ffurflen Gais wedi ei chwblhau a dogfennau cefnogol, cysyllltwch â:**

Dŵr Anafon, Yr Hen Felin, Abergwyngregyn, Llanfairfechan, LL33 0LP

**neu**

info@dwranafon.co.uk

Gall y sefydliadau a ganlyn gynnig cymorth annibynnol gyda'ch cais:

http://mantellgwynedd.com ebost: ymholiadau@mantellgwynedd.com

http://cvsc.org.uk ebost: mail@cvsc.org.uk

## Map o'r Ardal Fuddiol

